

# Ymlaen Caerdydd: Y Bêl Rygbi a’r Byd

## Strategaeth Gynaliadwyedd Rygbi Caerdydd 2026

150 Mlynedd o Hanes. Ymrwymo i Ddyfodol Cynaliadwy




“Mae cynaliadwyedd yn greiddiol i bopeth sy’n ymwneud â’n clwb – ein gweithredoedd ein cymuned a’n cefnogwyr.”




# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Crynodeb Gweithredol | 6 |
| Cyd-destun | 8 |
| Ein Gweledigaeth a'n Nod | 14 |
| Ein Fframwaith | 16 |
| Cyrraedd Ein Nod | 20 |
| Arwain, Ein Llywodraethiant a Chofnodi | 26 |
| Cyfathrebu | 30 |
| Ein Campwyr Campus | 32 |
| Gwybodaeth Atodol | 34 |




# 1. Rhagair

## Jamie Muir, Rheolwr Gyfarwyddwr Rygbi Caerdydd

Dros y degawd diwethaf yma yn Rygbi Caerdydd, rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun beth mae'r clwb yma'n ei olygu i'n dinas. Mae'n llawer mwy na thîm neu glwb yn unig – mae'n rhan o hunaniaeth Caerdydd, yn ganolfan gymunedol ac yn ddylanwad cadarnhaol ar fywyd y Brifddinas o ddydd i ddydd.

Wrth inni ddathlu 150 mlynedd o Rygbi Caerdydd, mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu cynnydd pellach yn ein cyfrifoldeb tuag at ein cymuned. Nid yw llwyddiant yn cael ei fesur yn unig gan yr hyn sy'n digwydd ar y cae ym Mharc yr Arfau, ond hefyd gan yr effaith a gawn ar draws ein dinas, yr ardal ehangach a thu hwnt i hynny hyd yn oed.

Mae cynaliadwyedd yn berthnasol ac yn bwysig i bob rhan o'n gwaith fel clwb – o'r rygbi ei hun i'n gweithrediadau oddi ar y maes chwarae. Mae hefyd wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud o safbwynt ein cymuned a'n cefnogwyr. Mae'n llywio'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau ac yn mesur llwyddiant hefyd.

Drwy fy nghysylltiad personol â gweithgareddau awyr agored, rwy'n gweld pa mor bwysig yw diogelu'r lleoliadau, yr ardaloedd a'r cymunedau sydd o'n cwmpas. Fel tad, mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n teimlo hyd yn oed yn fwy perthnasol. Ein bwriad clir yw sicrhau dyfodol ein gêm, ein dinas a'r amgylchedd y mae'r cyfan yn dibynnu arno.

Mae gan Rygbi Caerdydd ran unigryw i'w chwarae yn ein dinas. Trwy'r profiadau yr ydym yn eu cynnig ar ddiwrnod gêm a'n gwaith cymunedol, gallwn ymgysylltu â miloedd o bobl bob wythnos.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'r dylanwad hwnnw i sicrhau newid ystyrlon ym meysydd Hinsawdd, Natur a Phobl.

Rydym yn adeiladu'n strategaeth ar sylfeini cadarn – o leihau ein hôl troed amgylcheddol i waith ein Sefydliad Cymunedol. Bellach, y ffocws yw gwreiddio'r egwyddorion hyn ym mhob agwedd o'r ffordd rydym yn gweithredu, yn cydweithio ac yn tyfu.

Dyma'n hetifeddiaeth a dyma bennod nesaf ein clwb, a'n dinas.

## Alan Ryder, Prif Weithredwr Grŵp RSK

Yn RSK, rydym yn gweithio gyda sefydliadau i ddeall effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol eu gweithredoedd, gan droi eu huchelgais yn weithredoedd ymarferol sy'n gallu cael eu mesur. Mae cynlluniau cynaliadwyedd Rygbi Caerdydd yn amlwg a chadarn gan mai eu bwriad clir yw gwreiddio cynaliadwyedd ym mhob agwedd o benderfyniadau a gweithredoedd y clwb – yn hytrach na thrin cynaliadwyedd fel mater a gweithred ar ei ben ei hun.

Mae gan y clwb ddylanwad sylweddol iawn yn ei gymuned. Trwy ganolbwyntio ar hinsawdd, natur a phobl, a thrwy fabwysiadu dulliau ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae Rygbi Caerdydd mewn sefyllfa gref i sicrhau effaith ystyrlon a hirdymor, ar y cae ac oddi arno. Mae RSK yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio gyda'r clwb er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau hyn.

## 2. Argraffiadau Syr Gareth Edwards

Ers canrif a hanner, mae Rygbi Caerdydd wedi bod wrth galon cymuned ein Prifddinas. Mae'r clwb wedi helpu llunio hunaniaeth y gymuned ers cenedlaethau bellach. Mae'n gyfrifoldeb arnom i warchod y seiliau cadarn hyn sydd wedi eu gosod a'u cryfhau ymhellach ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Bydd ein gwaddol yn cael ei fesur gan fwy na'n canlyniadau ar y maes chwarae. Mae'n rhaid i ni ddangos arweiniad cryf – fydd yn cryfhau ein dinas a gwneud y byd yn well i bawb.

## 3. Josh McNally – Gair o'r Garfan

Mae'n llwyddiant fel tîm yn deillio o gyd-chwarae a chyd-weithio. Mae hynny'n wir hefyd am gynlluniau a gweithredoedd cynaliadwyedd Rygbi Caerdydd. Mae'r camau cyntaf eisoes wedi eu cymryd wrth i ni gefnogi'n cymunedau a lleihau ein pwysau ar yr amgylchedd. Mae pob un o'r chwaraewyr yn hynod o falch wrth gynrychioli Rygbi Caerdydd ar y cae ond rydym hefyd eisiau arwain drwy esiampl oddi arno. Fe allwn wneud hynny wrth gefnogi'n cymunedau yng Nghaerdydd a'r ardal ehangach a gweithredu'n ymarferol i warchod yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol.

## 4. Rhianon Griffiths – Cydlynydd Diogelwch a Chynaliadwyedd

Mae'n fraint aruthrol arwain cynlluniau cynaliadwyedd Rygbi Caerdydd wrth i ni edrych ymlaen at ddathlu'n pen-blwydd yn 150 oed. Wedi i mi dreulio degawd a mwy gyda'r clwb, mae pwysigrwydd y cynlluniau cynaliadwyedd yma'n amlwg i bawb. Ry'n ni gyd yn hollol ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu'r amgylchedd a'r heriau ariannol ddaw yn sgîl hynny.

Trwy'n gweithredoedd a'n harweinyddiaeth gadarn byddwn yn cadarnhau'r balchder amlwg y mae Rygbi Caerdydd yn ennyn o fewn y Brifddinas. Mae gennym bellach y cyfle i fanteisio ar yr ymdeimlad pwysig hwnnw i arwain y newidiadau cadarnhaol sydd yn y strategaeth bwysig hon.

Dyma'r bennod nesaf yn hanes Rygbi Caerdydd a'r gymuned ehangach ry'n ni'n ei chynrychioli. Rydym wedi ymroi i arwain newidiadau arwyddocaol ar y cae ac oddi arno hefyd. Fe wnawn ni hynny wrth adeiladu dyfodol carbon isel sy'n gadarnhaol o safbwynt yr amgylchedd wrth osod ein pobl wrth galon y cynlluniau hyn ar ran teulu Rygbi Caerdydd.






"Rydym wedi ymrwymo i arwain newid cadarnhaol ar y cae ac oddi arno, gan adeiladu dyfodol carbon isel sy'n naturiol yn gefnogol i'r amgylchedd. Bydd holl deulu Rygbi Caerdydd wrth galon y cynlluniau a'r gweithredoedd hyn."

# 2. Crynodeb Gweithredol

## Ein Gweledigaeth Gynaliadwy

Bydd Rygbi Caerdydd ar flaen y gad o safbwynt cynaliadwyedd ym maes chwaraeon, gan wneud hynny drwy weithredu, cydweithio a thrwy ysbrydoli.

## Ein Cenhadaeth

Byddwn yn gweithredu'n gadarnhaol yn ddyddiol er lles yr hinsawdd, natur a phobl. Wrth leihau ein hôl troed amgylcheddol, ysbrydoli cefnogwyr a dathlu'r cynnydd hwnnw gyda'n gilydd, byddwn yn creu etifeddiaeth bendant ac eang.

Mae Strategaeth Gynaliadwyedd Rygbi Caerdydd yn gosod cynllun clir, ymarferol ac uchelgeisiol yn ei le i leihau ein heffaith amgylcheddol, gan gryfhau lles cymunedol ac adeiladu gwydnwch hirdymor i'r clwb, ein cefnogwyr a'n dinas yn y broses. Drwy ddylanwad enw da Rygbi Caerdydd a'n cysylltiadau eang, gallwn nid yn unig drawsnewid ein gweithredoedd ein hunain, ond hefyd gallwn ysbrydoli newid cadarnhaol a gwirioneddol yn ehangach. Gyda'n gilydd, fel teulu rygbi, gallwn lwyddo i gyflawni'n gobeithion a chreu newid er gwell.

Ers 150 o flynyddoedd, mae Rygbi Caerdydd wedi bod wrth galon chwaraeon Cymru. Mae rhagoriaeth, cymuned ac ymdeimlad dwfn o hunaniaeth yn allweddol i werthoedd ein clwb. Mae'r ffaith ein bod yn dathlu ein pen-blwydd yn 150 oed yn gyfle i ddathlu ein gorffennol a'n presennol, ond hefyd yn fan cychwyn i edrych tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Bydd y 150 mlynedd nesaf yn galw am fath newydd o arweinyddiaeth. Yn union fel y mae Rygbi Caerdydd yn ymladd am lwyddiant ar y cae, rydym hefyd am gyfrannu at ddyfodol gwyrddach, tecach a mwy gwydn y tu hwnt i'r maes chwarae. Nid cynllun ar y cyrion yw cynaliadwyedd; mae wrth wraidd pob penderfyniad a wnawn.

Rydym eisoes wedi dechrau gosod sylfeini cadarn ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor drwy leihau ein hôl troed amgylcheddol, cryfhau lles cymunedol a pharatoi'r clwb ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

Mae ein strategaeth wedi'i seilio ar dair thema allweddol: Hinsawdd, Natur a Phobl, ac mae'n cyd-fynd â strategaethau, cynlluniau a fframweithiau cynaliadwyedd yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r tair thema hyn yn llywio ein gweithgarwch ar draws y naw maes blaenoriaeth canlynol: Ynni, gwydnwch hinsawdd, teithio, bioamrywiaeth, Dŵr, gwastraff a'r economi gylchol, ymgysylltu â'r gymuned, amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a lles.

**Ein Hymrwymiadau Allweddol**

- Hinsawdd: Lleihau ein heffaith ar yr hinsawdd drwy wella'n heffeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon ym mhob agwedd o waith y clwb..
- Natur: Deall yr effaith y caiff ein gweithredoedd ar yr amgylchedd a'n dibyniaeth ar fyd natur. Byddwn hefyd yn gweithredu i gefnogi bioamrywiaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol hefyd.
- Pobl: Darparu rhaglenni rygbi a chymunedol cynhwysol sy'n cryfhau addysg, iechyd a chynhwysiant cymdeithasol yn ein cymunedau.

Bydd yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cefnogi drwy gryfhau ein trefniadau llywodraethiant, cryfhau'r modd yr ydym yn mesur ein cynnydd, a thrwy gyfathrebu'n glir gyda'n holl randdeiliaid.

Mae'r adrannau sy'n dilyn yn amlinellu'n fanwl yr hyn rydym yn anelu at ei gyflawni ym mhob un o'r meysydd hyn.

# 3. Y Cyd-destun


## 3.1 Dathlu 150 Mlynedd o Rygbi Caerdydd

**Parchu'r gorffennol. Paratoi ar gyfer y dyfodol.**
Ers 150 o flynyddoedd, mae Rygbi Caerdydd wedi bod yn gonglfaen i chwaraeon Cymru yng nghanol y Brifddinas. Mae gennym draddodiad balch o ragoriaeth, cysylltiadau cryf â'r gymuned ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth. Ers ei sefydlu yn 1876, mae Rygbi Caerdydd wedi meithrin mwy o chwaraewyr rhyngwladol sydd wedi cynrychioli Cymru a'r Llewod nag unrhyw glwb arall. Mae hanesion, atgofion a thraddodiadau ein clwb yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Mae'r etifeddiaeth werthfawr a chyfoethog hon yn rhan bwysig o hanes rygbi Cymru ac mae'n uno cefnogwyr o bob oedran.

Mae Parc yr Arfau wedi bod yn llawer mwy na stadiwm erioed. Mae'n fan cyfarfod ac yn galon i'n cymuned. Bob tymor, mae cannoedd o filoedd o bobl yn cerdded drwy gatiau Gwyn Nicholls. Yn ogystal mae mwy nag 800 o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyn y gemau, gan gyflwyno rhinweddau a phleserau rygbi iddyn nhw fydd yn aros gyda nhw am oes. Mae pob chwaraewr sy'n cynrychioli'n clwb – yn cynrychioli ein dinas hefyd.

Wrth ddathlu'n pen-blwydd yn 150 y tymor yma – mae'n gyfle i ni gofleidio'n hanes gan hefyd sylweddoli hefyd bod hwn yn ddechrau newydd o safbwynt sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy. Bydd y 150 mlynedd nesaf yn galw am arweinyddiaeth ddewr ac uchelgeisiol. Wrth i Rygbi Caerdydd frwydro am lwyddiant ar y maes, rydym yr un mor ymrwymedig i adeiladu byd sy'n fwy gwyrdd, yn decach ac yn fwy gwydn. Mae'n rhaid i ni osod cynaliadwyedd wrth wraidd popeth y gwnawn ni o hyn ymlaen.






"Wrth i Rygbi Caerdydd frwydro am fuddugoliaethau ar y cae, rydym yr un mor ymrwymedig i adeiladu byd gwyrddach, tecach a mwy gwydn oddi arno."

# 3. Y Cyd-destun

## 3.2 Diogelu ein gêm, ein dinas, ein dyfodol: Yr heriau sy'n ein hwynebu

Mae ystadegau hinsawdd Caerdydd yn adrodd stori glir: mae'n tymheredd yn codi, mae'n patrymau'r tywydd yn newid, ac mae'r risgiau i'n camp, ein dinas a'n cymunedau yn cynyddu. Nid yw gweithredu bellach yn ddewis – mae'n gwbl angenrheidiol er mwyn i ni allu diogelu'r gêm rydym yn ei charu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Rygbi Caerdydd wedi llunio etifeddiaeth gyfoethog iawn yn ystod ein canrif a hanner gyntaf. Bydd y 150 mlynedd nesaf yn dangos ein dylanwad cymdeithasol yn gwbl glir.

Mae llwyddiant ar y maes rygbi, fel y rhan fwyaf o bethau mewn bywyd, yn dibynnu ar amodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ffafriol – o'r tywydd i gyflwr y tir o dan draed heb anghofio am y pleser a'r lles gaiff y cefnogwyr wrth heidio i wylio gêm. Heddiw, mae'r seiliau hynny o dan bwysau, ac mae'r gêm yn wynebu heriau gwirioneddol. Mae Cymru wedi profi'r ail aeaf gwlypaf erioed, gyda glaw trymach a stormydd mwy dwys yn amharu ar gemau, yn gadael caeau dan ddŵr, ac yn cynyddu'r risgiau i les chwaraewyr. Bellach, Caerdydd yw'r chweched ddinas fwyaf tebygol yn y Deyrnas Unedig i ddioddef effeithiau o godiad yn lefel y môr. Byddai hynny'n golygu y byddai llifogydd yn effeithio ar gartrefi, llwybrau trafnidiaeth a mannau cymunedol a chymdeithasol hefyd. Rydym eisoes wedi gweld effeithiau tywydd eithafol yn ein hardal pan achosodd llifogydd yn Rhondda Cynon Taf gryn ddinistr.



Mae heriau cymdeithasol hefyd yn cynyddu, gyda bron i hanner y bobl dros 65 oed yma yng Nghymru yn debygol o ddioddef o effeithiau gwres wrth i gyfnodau o dymheredd eithafol ddod yn fwy cyffredin. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar gymunedau sydd eisoes yn wynebu anghydraddoldeb, lle mae pobl hŷn, y rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, a thrigolion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn wynebu'r peryglon iechyd mwyaf.


Yn ôl Trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (CCRA3), mae angen gweithredu pellach ar unwaith ar 32 o'r 61 risg hinsawdd a aseswyd yng Nghymru, gan gynnwys risgiau i iechyd, seilwaith, llifogydd ac amgylchedd naturiol Cymru.

Mae'n gwlad hefyd yn wynebu argyfwng difrifol o safbwynt ein byd natur a bioamrywiaeth. Mae adroddiad Cyflwr Natur Cymru 2023 yn dangos bod un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu, a bod nifer y rhywogaethau tir a dŵr ffres a chroyw wedi gostwng tua 20% ers 1994. Oherwydd y pwysau parhaus hyn, mae Cymru bellach yn un o'r gwledydd sydd wedi dioddef y colledion mwyaf yn y byd o safbwynt ei byd natur.

Ar yr un pryd, mae disgwyliadau o ran cynaliadwyedd yn cynyddu ar draws pob sector – busnesau, sefydliadau a chlybiau chwaraeon fel ei gilydd. Mae cefnogwyr, noddwyr a chyrff llywodraethu yn disgwyl gweithredu amgylcheddol ymarferol, gwerth cymdeithasol cryfach, a llywodraethiant clir a chadarn.




## Newid yn y Tymheredd yng Nghaerdydd




Hinsawdd Caerdydd, (Prifysgol Reading)

# 3. Y Cyd-destun




## 3.3 Teulu Rygbi Caerdydd

Mae ein taith gynaliadwyedd yn ymdrech ar y cyd, gan aelodau o'n tîm a'n teulu ehangach, ac mae gan bob aelod o deulu Rygbi Caerdydd rôl i'w chwarae. Mae cefnogwyr, chwaraewyr, staff, partneriaid a chyflenwyr fel ei gilydd yn ein helpu i sicrhau llwyddiant. Mae cefnogi'r tîm bellach hefyd yn golygu cefnogi ein planed, oherwydd wrth i bawb dynnu i'r un cyfeiriad, gallwn leihau ein heffaith negyddol ar yr hinsawdd, defnyddio llai o adnoddau ac adfer ein cysylltiad â natur. Gweler Adran 10 i weld y rhestr lawn o aelodau ein teulu estynedig.

Bydd Parc yr Arfau, ein cartref eiconig, yn datblygu'n ganolfan ar gyfer arloesi ym maes cynaliadwyedd wrth inni baratoi ar gyfer y gwelliannau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu'n prydles yn 2028. Ond mae ein dylanwad yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r cae a chanol Caerdydd.

Mae ein gemau cartref bellach yn ddigwyddiadau llawer mwy gwyrdd, lle mae cefnogwyr yn ein helpu i leihau gwastraff ac allyriadau. Mae hyn wedi'i ysbrydoli gan esiampl y chwaraewyr, sydd wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad amgylcheddol ein cefnogwyr. Mae'n cefnogwyr hefyd yn gwarchod a chynnal ein traddodiadau, gan drosglwyddo'r etifeddiaeth honno a'r ymdeimlad o gyfrifoldeb ymlaen at y genhedlaeth nesaf.



Mae ein partneriaid yn cryfhau'n hymdrechion gwyrdd drwy alluogi trefniadau teithio mwy cynaliadwy, effeithlonrwydd ynni, ailgylchu, defnydd cyfrifol o ddŵr, prynu'n gyfrifol a gwerthu tocynnau digidol. Mae'r holl bethau hyn yn sicrhau bod Rygbi Caerdydd yn symud ymlaen fel un tîm unedig.

## Ein Cynnydd o ran Cynaliadwyedd hyd yma

### 2008




Lansiwyd menter ailgylchu mewn partneriaeth â Severnside Recycling i leihau gwastraff ac addysgu ymwelwyr oedd yn dod i Barc yr Arfau

### 2014-15

Lansiwyd ymgyrch "Blues Go Green for Europe" gyda DS Smith, gan gyflwyno chwe ymrwymiad gwyrdd




### 2015



- Newidiwyd cyflenwyr i Octopus Energy
- Dechreuwyd cynllun i osod goleuadau LED
- Cyflwynwyd cynllun car trydan ar gyfer y staff drwy nawdd Nissan
- Gosodwyd pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV)

### 2018-2022

- Ymrwymodd cyflenwr cit Macron i gynhyrchu'n gynaliadwy
- Gosodwyd system Aqua Logic yn y toiledau i leihau'r defnydd o ddŵr
- Cwblhawyd y broses o osod goleuadau LED gyda synwyryddion ledled y stadiwm
- Lansiwyd rhaglen newydd i ysgolion




### 2022-2024



Cyhoeddwyd partneriaeth nawdd gyda RSK

- Sefydlwyd partneriaeth gydag Olleco i ailgylchu olew coginio
- Cyflwynwyd cynllun ceir trydan BYD ar gyfer y staff
- Cyflwynwyd biniau gwahanol liwiau, a phecynnau bwyd cynaliadwy

### 2024 to 2025

- Dechreuwyd gweithio gyda Nature Positive
- Penodwyd Cydlynydd Cynaliadwyedd
- 90% o werthiant tocynnau'n ddigidol
- Gosodwyd ffynhonnau dŵr newydd o amgylch y stadiwm
- Arbedwyd 177,196 kg $CO^2$e drwy ymgyrch Pledgeballn
- Cydweithio gyda 68 o ysgolion cynradd drwy ein rhaglen Iechyd a lles



## 3.4 Dadansoddiad o'n Sefyllfa Bresennol

Mae Rygbi Caerdydd eisoes wedi dechrau adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor drwy leihau ein hôl troed amgylcheddol, cryfhau llesiant ein cymunedau a pharatoi'r clwb ar gyfer heriau'r dyfodol.

**Edrych yn Ôl:** Mae Rygbi Caerdydd eisoes wedi cymryd camau pwysig i leihau ei effaith ar yr amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno citiau wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, defnyddio cwpanau y gellir eu hailddefnyddio, ehangu'r defnydd o docynnau digidol, mabwysiadu cynlluniau taliadau ynni gwyrdd, plannu coed i negydu allyriadau carbon a monitro ansawdd yr aer o amgylch y stadiwm.

Mae Sefydliad Cymunedol Rygbi Caerdydd wedi atgyfnerthu'r cynnydd hwn drwy raglenni sy'n cefnogi cymunedau iachach, yn annog teithio gwyrdd ac iach ac yn meithrin ymwybyddiaeth amgylcheddol ledled ein rhanbarth.

Mae ein Sefydliad Cymunedol yn gweithio gyda channoedd o ysgolion, colegau a chlybiau llawr gwlad, gan gefnogi dros 80,000 o bobl bob blwyddyn drwy fentora, addysg a rygbi cynhwysol.

**Edrych Ymlaen:** Mae Rygbi Caerdydd yn paratoi ton newydd o fentrau cynaliadwyedd, gan gynnwys prosiectau natur yn y gymuned, cynnig atebion ailgylchu dŵr a chryfhau partneriaethau ar gyfer teithio cynaliadwy. Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.



# 4. Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth ar gyfer Cynaliadwyedd

## Ein Gweledigaeth ar gyfer Cynaliadwyedd

Bydd Rygbi Caerdydd yn arwain y ffordd ym maes chwaraeon cynaliadwy, gan ysgogi newid drwy weithredu, cydweithio ac ysbrydoli eraill.

## Ein Cenhadaeth ar gyfer Cynaliadwyedd

Byddwn yn gweithredu ac yn defnyddio'n dylanwad i greu effaith gadarnhaol ar yr hinsawdd, ar natur ac ar bobl. Drwy leihau ein hôl troed amgylcheddol, ysbrydoli ein cefnogwyr a dathlu ein cynnydd gyda'n gilydd, byddwn yn datblygu etifeddiaeth fydd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r maes chwarae.




# Rygbi Caerdydd: Mewn Undod Mae Nerth

Mae Rygbi Caerdydd yn llywio pob penderfyniad a wnawn a phob cam a gymerwn wrth ystyried ein prif werthoedd diwylliannol - **Parch, Angerdd a Theulu.**

Mae cannoedd o filoedd o bobl yn cymryd rhan ar y siwrnai hon gyda ni – ein cefnogwyr, ein partneriaid, ein cymunedau a'r clybiau llawr gwlad o fewn ein rhanbarth yr ydym yn falch o'u cynrychioli.

Mae Rygbi Caerdydd wastad wedi cynrychioli mwy na'r tîm rygbi'n unig. Mae'n adlewyrchu'r ffordd rydym yn ymddwyn, yn cefnogi ein gilydd ac yn anrhydeddu'r cymunedau a'r ddinas yr ydym yn eu cynrychioli. Yr ysbryd hwn o berthyn ac undod sy'n sbarduno ein taith gynaliadwyedd. Mae ein gweledigaeth a'n cenhadaeth yn amlinellu sut y byddwn yn troi ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn gamau ymarferol ac ystyrlon er budd yr hinsawdd, ein byd natur a'n pobl.



# 5. Ein Dulliau a'n Fframwaith Cynaliadwyedd

Mae'r newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a'r anghydraddoldebau cymdeithasol yn golygu newidiadau mawr i Rygbi Caerdydd, ein dinas a'n cymunedau. Rydym yn deall y dylanwad cadarnhaol y gallwn ei gael yn lleol a'r ffaith y gallwn gynnig eglurder ynghylch y meysydd lle gall Rygbi Caerdydd wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mae angen targedau clir a cherrig milltir pendant yn ogystal â disgyblaeth gadarn yn wyneb heriau gwirioneddol, i'n harwain drwy gamau nesaf ein taith. Mae angen hefyd ffordd o gadw cofnodion clir fel ein bod yn gwybod pryd rydym yn gwneud cynnydd, a phryd y gallwn ddathlu ein llwyddiant gyda'n gilydd. Dyna yw diben y strategaeth hon, ac mae wedi'i seilio ar dair prif thema:

- **Hinsawdd** – lleihau ein hôl troed carbon a gweddnewid ein gweithrediadau i fod yn garbon isel.
- **Natur** – diogelu cynefinoedd lleol a lleihau ein hôl troed amgylcheddol drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a gwella'r ffordd rydym yn rheoli gwastraff.
- **Pobl** – cefnogi ein cymunedau, hyrwyddo iechyd, cynhwysiant a chynnig cyfleoedd i bawb sy'n gysylltiedig â Rygbi Caerdydd.



## Prif Feysydd ein Sylw

Mae'r meysydd ffocws hyn yn nodi'r prif themâu a'r nodau a fydd yn llywio gwaith cynaliadwyedd Rygbi Caerdydd ym meysydd Hinsawdd, Natur a Phobl. Mae pob thema yn cael ei chefnogi gan flaenoriaethau gweithredu fydd yn llywio ein penderfyniadau, ein partneriaethau a'n buddsoddiadau yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Nid yw taith gynaliadwyedd Rygbi Caerdydd yn bodoli mewn gwacter ar ei phen ei hun. Rydym yn rhan o ymdrech ehangach ar lefel ranbarthol, genedlaethol a byd-eang i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan adfer natur a chryfhau llesiant cymunedau hefyd yn y broses. Mae sicrhau bod ein strategaeth a'n fframweithiau allweddol eraill yn cyd-fynd â safonau a dyheadau mwyaf cadarn y maes cynaliadwyedd yn sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyfrannu at nodau cyffredin ac yn elwa ar ganllawiau cadarn eraill ac arferion gorau.

**Mae ein strategaeth yn cyd-fynd â:**

- Dros Gaerdydd ac Un Blaned Caerdydd – gan gefnogi taith ein Prifddinas tuag at sero net a gwydnwch hinsawdd gwirioneddol fydd yn sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyfrannu at Gaerdydd wyrddach ac iachach.
- Undeb Rygbi Cymru – gan ddilyn yr un llwybrau ac egwyddorion amgylcheddol, cymunedol ac o safbwynt cyfranogiad â safonau cenedlaethol rygbi. Gall hyn gael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau a chyfranogiad cynhwysol.
- Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGs) – gan gysylltu ein gwaith â nodau byd-eang ar weithredu ar yr hinsawdd, iechyd, cydraddoldeb, arferion cyfrifol a chymunedau cadarn.

| Maes | Maes Penodol | | |
|---|---|---|---|
| Hinsawdd | **Ynni** | **Gwydnwch Hinsawdd** | **Teithio** |
| | • Gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau'r defnydd o ynni ym mhob rhan o'r stadiwm a'r cyfleusterau ymarfer.<br>• Symud at ffynonellau ynni glanach. | • Gwella'r gallu i wrthsefyll risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, megis tywydd eithafol a llifogydd<br>• Gwella seilwaith a chynllunio er mwyn sicrhau parhad gweithredol yn y tymor hir. | • Annog a galluogi dewisiadau teithio carbon is i gefnogwyr, staff a thimau.<br>• Gwella cyfathrebu a chydlynu gyda phartneriaid trafnidiaeth er mwyn lleihau allyriadau sy'n deillio o deithio. |
| Natur | **Bioamrywiaeth** | **Dŵr** | **Gwastraff a'r Economi Gylchol** |
| | • Gwella bioamrywiaeth ym Mharc yr Arfau Caerdydd a'r ardal o amgylch y stadiwm, drwy brosiectau sydd wedi'u targedu'n benodol.<br>• Cefnogi mentrau natur cymunedol ac addysg amgylcheddol.<br>• Asesu effaith ar fioamrywiaeth ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi. | • Lleihau'r defnydd o ddŵr a dileu gwastraff dŵr yn y stadiwm a'r cyfleusterau ymarfer.<br>• Archwilio cyfleoedd hirdymor i ddefnyddio ffynonellau dŵr amgen ar gyfer defnyddiau penodol, megis casglu dŵr glaw. | • Dileu cynnyrch plastig untro yn raddol, cynyddu cyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio ymhellach, a chynnig atebion mwy cadarn i'r economi gylchol er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchir ar draws pob agwedd o waith y clwb, gan hefyd leihau llygredd microblastigion a mathau eraill o lygredd. |
| Pobl | **Ymgysylltu â'r Gymuned** | **Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **Iechyd a Llesiant** |
| | • Datblygu cynlluniau sy'n ysbrydoli newid cadarnhaol mewn ymddygiad ac yn cynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol.<br>• Cryfhau ac ehangu partneriaethau ymhellach gyda chlybiau llawr gwlad, ysgolion, cymunedau a sefydliadau rhanbarthol i gyd-greu cynlluniau sy'n cefnogi cymunedau iachach a mwy unedig. | • Sicrhau bod Rygbi Caerdydd yn cynnig croeso cynnes a chynhwysol i bob cefnogwr, aelod o staff a chwaraewr.<br>• Ymgorffori arferion cynhwysol ym mhob cynllun cymunedol a phrofiadau diwrnod gêm. | • Hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol drwy gynlluniau iechyd a lles sy'n seiliedig ar rygbi.<br>• Cefnogi dewisiadau bwyd a diod sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy ar ddiwrnodau gêm ac mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol.<br>• Gwella'r gwaith o fonitro a rheoli ansawdd aer a dŵr, ac ymateb yn briodol i'r canlyniadau hynny. |

Mae'r adran nesaf yn amlinellu'n cynlluniau penodol fydd yn rhoi'r prif feysydd yma a'r themâu hyn ar waith.
Er mwyn sicrhau bod hyn yn llwyddo, bydd ein systemau llywodraethiant a rheoleiddio yn dod at ei gilydd er mwyn cysoni ein penderfyniadau, nodi cynnydd a sicrhau ein bod yn symud ymlaen gyda'n gilydd fel un tîm.


Beton Bauen
Beton Bauen
THE PETER


OMAS STAND
Beton Bauen
Beton Bauen
SMITHS

# 6. Cyrraedd Ein Nod

## Mae angen cynlluniau cadarn ar bob tîm er mwyn gwireddu eu huchelgeisiau.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu ble'r ydym ar hyn o bryd, y cynnydd a wnaed eisoes (Yr Hanner Cyntaf), a'r blaenoriaethau fydd yn llywio'r camau nesaf o'n gwaith (Yr Ail Hanner). Drwy wreiddio cynaliadwyedd yn ein gweithredoedd bob dydd o'r flwyddyn – boed hynny ar ddiwrnod arferol neu achlysur cynnal gêm ar Barc yr Arfau, ein nod yw creu profiadau sy'n gyffrous, yn gyfrifol ac yn flaengar, fel y gallwn sicrhau bod Rygbi Caerdydd yn chwarae ei ran ar y cae ac oddi arno am y 150 mlynedd nesaf.

### 6.1 Hinsawdd

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob elfen o waith ein clwb – boed hynny'n bopeth sy'n digwydd wrth gynnal gêm gartref, trefniadau teithio, cynnal, cadw a gwella cyfleusterau a chynllunio ariannol hirdymor hefyd.

### Ein Hymrwymiad

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol yn unol â'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf sydd ar gael, gan adeiladu clwb carbon isel ac ynni-effeithlon fydd yn gallu ffynnu am flynyddoedd maith yn y dyfodol. Byddwn yn gosod targedau clir ar gyfer lleihau allyriadau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, gan gymryd camau ymarferol i gryfhau ein gwydnwch hinsawdd ar y cae ac oddi arno.

### Dadansoddiad yr Hanner Cyntaf

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth leihau ein hôl troed carbon drwy uwchraddio i oleuadau LED, mabwysiadu tariffau ynni gwyrdd 100%, gwella'r ffordd rydym yn gwahanu gwastraff a chynyddu ein cyfraddau ailgylchu ar draws ein safleoedd.


Er mwyn mesur cynnydd yn y dyfodol, rydym wedi cynnal archwiliadau ynni gydag Amber Energy, ac wedi cwblhau ein blwyddyn lawn gyntaf o gofnodi allyriadau gan ddefnyddio offeryn carbon Nature Positive (gweler y graff).


Mae hyn yn cynnig man cychwyn ar gyfer gosod targedau yn y dyfodol er mwyn mesur ein cynnydd yn effeithiol.


Mae asesiadau o effaith ein teithio cyson gyda'n Prif Bartneriaid, RSK, ynghyd â chyflwyno tocynnau digidol ac adolygiadau o'r seilwaith, wedi cryfhau ein dealltwriaeth o ffynonellau ein hallyriadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i'w lleihau.

Rydym hefyd wedi ymuno â Pledgeball i annog ein cefnogwyr i wneud addewidion ac ymrwymiadau sy'n helpu'r hinsawdd. O ganlyniad, gwnaeth cefnogwyr ymrwymiadau oedd yn cyfateb i arbed 177,196 kg $CO_2e$ mewn un gêm ddarbi yn unig.

### Ôl Troed Carbon




Medi 2024 – Medi 2025

| Adeiladau | |
|---|---|
| Tanwydd (gan gynnwys Ffynnon i'r Tanc /WTT) | 9.4 |
| Trydan (gan gynnwys colledion) | 305 |
| Dŵr | 3.5 |
| Gwastraff | 11 |
| **Teithio Busnes (gan gynnwys Ffynnon i'r Tanc)** | |
| Hedfan | 272 |
| Ceir | 2.8 |
| Bysiau | 2.3 |
| Gwestai | 0.6 |
| **Cyfanswm** | **607** |




## Yr Ail Hanner: Ein Blaenoriaethau ar gyfer y Camau Nesaf

Wrth edrych ymlaen, mae gennym amrywiaeth o gyfleoedd i leihau ein hôl troed carbon a chryfhau ein gwydnwch ymhellach:

| Blaenoriaethau | Ail Hanner Ein Cynlluniau |
|---|---|
| Ynni | • Gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau'n defnydd yn y stadiwm a'n cyfleusterau ymarfer.<br>• Gwella effeithlonrwydd ein goleuadau, offer arlwyo a systemau rheoli adeiladau'r stadiwm, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod ffynonellau ynni glanach yn disodli'r defnydd o danwydd ffosil.<br>• Edrych yn fanwl ar y cyfleoedd seilwaith ddaw yn sgîl cynnal cystadleuaeth UEFA EURO 2028, gan gynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV), paneli solar ac uwchraddio'r is-orsaf drydan. |
| Gwydnwch Hinsawdd | • Asesu risgiau hinsawdd ym mhob agwedd o waith y clwb, y stadiwm, a'r cyfleusterau ymarfer hefyd. Rhaid hefyd ystyried glaw a gwres eithriadol ac effeithiau posib llifogydd – elfennau all effeithio'n negyddol ar deithio a gemau. Rhaid cryfhau gallu'r clwb i wrthsefyll y peryglon a'r posibiliadau hynny.<br>• Cryfhau cynlluniau ymateb brys a gallu'r clwb i barhau'n weithredol yn hyderus yn wyneb heriau tywydd eithafol.<br>• Ymgysylltu â chefnogwyr, partneriaid a'r gymuned gyfan er mwyn meithrin dealltwriaeth o sut mae gwydnwch hinsawdd yn diogelu dyfodol rygbi yng Nghaerdydd a ledled ein gwlad. |
| Teithio | • Annog a galluogi dewisiadau teithio carbon is i gefnogwyr, staff a thimau.<br>• Cryfhau cyfathrebu a chydlynu gyda phartneriaid trafnidiaeth er mwyn lleihau allyriadau sy'n deillio o deithio.<br>• Ymchwilio i opsiynau i leihau'r allyriadau teithio na ellir eu hosgoi. |

Mae pob cam a gymrwn yn dod â Rygbi Caerdydd yn nes at ddyfodol gwydn a charbon isel.

# 6. Cyrraedd Ein Nod



“Wrth i ni edrych tua’r dyfodol, rydym eisiau gosod mwy o bwyslais ar gyfrannu at gynlluniau sy’n cael effaith gadarnhaol ar fyd natur yng ngwaith bob dydd y clwb, fydd hefyd yn effeithio’r ddinas a’r ardal ehangach yma yng Nghymru.”

## 6.2 Natur

Mae natur yn hanfodol i iechyd a gwydnwch ein dinas, ein cefnogwyr a'n camp. Mae Parc yr Arfau yng nghanol y ddinas wrth gwrs ar lan yr Afon Taf ac wedi'i gysylltu â pharciau a mannau agored pwysicaf Caerdydd. Mae ecosystemau iach yn lleihau'r risg o lifogydd, yn gwella ansawdd yr aer ac yn creu llefydd gwell i bobl fyw, gweithio a mwynhau eu hunain hefyd.

## Ein Hymrwymiad

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gall byd natur ffynnu law yn llaw â'n treftadaeth rygbi. Byddwn yn asesu ein heffeithiau ar natur, yn nodi'r cyfleoedd sydd gennym i weithredu ac yn gosod targedau y gallwn eu mesur er mwyn sicrhau gwelliannau o ddifrif i fioamrywiaeth ledled rhanbarth hardd Caerdydd a thu hwnt. Yn ogystal â chefnogi natur, bydd y cynlluniau yma hefyd yn helpu i greu 'cartref' glanach ac iachach i'n chwaraewyr, ein staff, ein cefnogwyr a'r cymunedau sydd mor gefnogol i ni fel clwb.

## Dadansoddiad yr Hanner Cyntaf

Rydym eisoes wedi dechrau adeiladu clwb sy'n ystyried yr amgylchedd a byd natur ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Rydym yn trefnu, didoli ac ailgylchu ein gwastraff er mwyn lleihau'r hyn sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Rydym hefyd wedi gosod ffynhonnau dŵr a mannau ail-lenwi poteli er mwyn lleihau'r defnydd o blastig untro. Yn ogystal, cwmni lleol Castell Howell sy'n cyflenwi'n bwyd ac yn ogystal â chefnogi cwmni Cymreig lleol, mae'r trefniant yma hefyd yn lleihau'r milltiroedd bwyd.

## Yr Ail Hanner: Ein Blaenoriaethau ar gyfer y Camau Nesaf

Wrth edrych ymlaen, rydym am osod mwy o bwyslais ar gyfrannu at gynlluniau sy'n cefnogi byd natur o fewn ein gweithrediadau, ein dinas a Chymru.

| Maes Sylw | Cynllun Gêm yr Ail Hanner |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | • Edrych am gyfleoedd i gyflwyno prosiectau bioamrywiaeth ym Mharc yr Arfau a'r ardal o gwmpas y stadiwm, gan gydweithio gyda chynlluniau cymunedol presennol sy'n ymwneud ag Afon Taf a chynlluniau tir glas ehangach y ddinas.<br>• Cefnogi ac ehangu mentrau natur cymunedol, gan rannu'r wybodaeth addysgol honno drwy gynlluniau ar gyfer ein cefnogwyr, ysgolion a'r gymuned.<br>• Sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol yn ystyriaethau pendant wrth gynllunio unrhyw ddatblygiadau newydd i stadiwm Parc yr Arfau, gan greu mannau gwyrddach i gefnogwyr, chwaraewyr a'r gymuned leol allu eu defnyddio.<br>• Asesu a lleihau effeithiau negyddol ar fyd natur ym mhob agwedd o'n gwaith drwy wella tryloywder ac arferion da yn ein cadwyn gyflenwi a'n ffrydiau gwastraff. |
| Dŵr | • Lleihau'r defnydd o ddŵr, gwella effeithlonrwydd dŵr a lleihau gwastraff dŵr ym mhob un o'n hadeiladau.<br>• Cefnogi ymdrechion lleol i ddiogelu a dathlu Afon Taf, sy'n rhan annatod o'n milltir sgwâr.<br>• Chwilio am atebion sy'n seiliedig ar natur, megis gerddi glaw, defnyddio ffynonellau dŵr amgen fel dŵr glaw a chyflwyno cynlluniau casglu dŵr addas. |
| Gwastraff a'r Economi Gylchol | • Diddymu'r defnydd o blastig untro yn raddol, cynyddu cyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio ymhellach, ac ehangu'r atebion posib i leihau faint o wastraff yr ydym yn ei greu fel clwb. Byddwn hefyd yn lleihau llygredd microblastigau a defnyddiau eraill sy'n llygru'r amgylchedd.<br>• Datblygu seilwaith sy'n hwyluso ailddefnyddio.<br>• Lleihau effeithiau llygredd sy'n deillio o'n seilwaith a'n gwaith bob dydd, gan gynnwys asesu arferion cynnal a chadw ac adnewyddu'r cae ar Barc yr Arfau.<br>• Gwella'r seilwaith Technoleg Gwybodaeth er mwyn gallu cynnig profiad cwbl ddigidol a di-bapur i'n cefnogwyr ar ddiwrnod gêm. |

Bydd y camau hyn yn helpu Rygbi Caerdydd i chwarae ein rhan wrth adfer ein byd natur a chryfhau ein gwydnwch amgylcheddol.



# 6. Cyrraedd Ein Nod

## 6.3 Pobl

Pobl yw curiad calon ein clwb. Mae buddsoddi mewn pobl yn cryfhau diwylliant Rygbi Caerdydd ac yn creu effaith hirdymor gadarnhaol ledled y rhanbarth.

### Ein Hymrwymiad

Rydym wedi ymrwymo i greu naws ac ymdeimlad sy'n gynhwysol, yn gefnogol ac ysbrydoledig o fewn teulu Rygbi Caerdydd, lle gall pob cefnogwr, pob aelod o staff a phob gwirfoddolwr deimlo eu bod yn perthyn, a'u bod yn datblygu a ffynnu fel unigolion, ar y cae ac oddi arno hefyd.

### Dadansoddiad yr Hanner Cyntaf

Drwy Sefydliad Cymunedol Rygbi Caerdydd, rydym yn cyffwrdd bywydau mwy na 80,000 o bobl sy'n cynnwys 382 o ysgolion a phum awdurdod lleol, gan ddefnyddio gwerthoedd rygbi i feithrin hyder, ymdeimlad o berthyn a chyfleoedd i bawb sy'n cymryd rhan.

Mae Rygbi Caerdydd yn falch o hyrwyddo rygbi cynhwysol ledled ein rhanbarth - rygbi cadair olwyn - rygbi i bobl â nam ar eu golwg - rygbi i bobl fyddar - a fformatau gallu cymysg o'r gamp. Mae ein rygbi ni'n agored i bawb. Mae ein rhaglenni cymunedol bellach yn cyrraedd 84 o glybiau ac 16 o ardaloedd 'Cymunedau yn Gyntaf'. Mae hyn oll yn bosib gyda chefnogaeth dros 200 o arweinwyr a 250 o wirfoddolwyr, ac mae'n werth nodi mai menywod yw hanner ein timau hyfforddi ac addysgu. Drwy'r Sefydliad Cymunedol, rydym yn darparu rhaglenni addysg, iechyd, cynhwysiant ac arweinyddiaeth. Gall hyn olygu rhaglenni llythrennedd mewn ysgolion cynradd neu wersylloedd llesiant i deuluoedd, rhaglenni adsefydlu troseddwyr neu fentrau teithio llesol.

Mae ymweliadau gan chwaraewyr, hyfforddiant arweinyddiaeth i bobl ifanc a phartneriaethau sy'n cael eu hariannu drwy'r cynllun Cyfrifoldeb Corfforaethol Cymdeithasol (CSR) yn ein helpu i gysylltu â miloedd o bobl o wahanol gymunedau, gan gynnwys rhai sydd heb fawr o brofiad o'r byd rygbi'n y gorffennol.



## Yr Ail Hanner: Ein Blaenoriaethau ar gyfer y Camau Nesaf

Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer y gymuned yn cynnwys y canlynol:

| Maes | Cynllun Gêm yr Ail Hanner |
|---|---|
| Ymgysylltu â'r Gymuned | • Defnyddio diwrnodau gêm a chynlluniau allanol penodol i ysbrydoli newid cadarnhaol mewn ymddygiad, nid yn unig o ran iechyd a lles unigolion, ond hefyd o ran ymddwyn yn gadarnhaol tuag at yr hinsawdd a byd natur.<br>• Cryfhau ac ehangu ein partneriaethau â chlybiau llawr gwlad, ysgolion, cymunedau a sefydliadau rhanbarthol ymhellach i gyd-greu a chydweithio ar gynlluniau sy'n cefnogi cymunedau iachach a mwy cysylltiedig â'i gilydd. |
| Amrywiaeth a Chynhwysiant | • Sicrhau bod Rygbi Caerdydd yn cynnig croeso cynnes a chynhwysol i bob cefnogwr, aelod o staff a chwaraewr.<br>• Ymgorffori arferion cynhwysol ym mhob agwedd o'n cynlluniau cymunedol a hefyd wrth gynnig profiadau i bawb ar ddiwrnod gêm. |
| Iechyd a Lles | • Hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol drwy gynlluniau sy'n seiliedig ar rygbi.<br>• Cefnogi dewisiadau bwyd a diod iachach a mwy cynaliadwy ar ddiwrnod gêm, gan wneud hynny hefyd mewn digwyddiadau cymunedol.<br>• Gwella'r gwaith o fonitro a rheoli ansawdd yr aer a'r dŵr yn y stadiwm ac yn ein safleoedd ymarfer. Byddwn hefyd yn ymateb yn briodol i unrhyw faterion perthnasol sy'n codi. |

Drwy fuddsoddi mewn pobl, rydym yn cryfhau diwylliant ein clwb ac yn ehangu ein dylanwad ledled y rhanbarth.



# 7. Arwain, Llywodraethu a Chadw Cofnod



Mae arweinyddiaeth gref, atebolrwydd clir a chadw cofnod cyson o'n datblygiad yn sicrhau bod Rygbi Caerdydd yn mynd i gryfhau'n darpariaeth, mesur ein llwyddiant a dathlu'r cynnydd hwnnw hefyd.

## Ein Hymrwymiad

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau arweinyddiaeth gref, dryloyw ac atebol sy'n sicrhau bod Rygbi Caerdydd yn sefydliad a chlwb gwydn, a'n bod yn unedig ac yn barod ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau. Byddwn yn sicrhau sefydlogrwydd ac eglurder fydd yn cynnig hyder i'r clwb yn ystod cyfnod o newid sylweddol yn hanes rygbi Cymru. Byddwn hefyd yn gwneud yn siŵr bod pob penderfyniad yn ystyried holl egwyddorion ac effeithiau cynaliadwyedd, gan wneud ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd ein gweithredoedd a'u heffaith yn cael eu mesur yn gyson a byddant yn cyd-fynd â'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr Hinsawdd, Natur a Phobl.

Mae mesur y datblygiadau pwysig yma'n mynd i sicrhau bod Rygbi Caerdydd yn camu ymlaen yn hyderus tuag at y dyfodol, gan wneud hynny gydag eglurder a phwrpas. Drwy gryfhau'r ffordd rydym yn monitro ein perfformiad amgylcheddol a chymdeithasol, gallwn wneud gwell penderfyniadau, dangos cynnydd a dathlu llwyddiant pellach yn y dyfodol.

## Dadansoddiad yr Hanner Cyntaf: Arweinyddiaeth a Mesur Cynnydd

Mae strwythur llywodraethu Rygbi Caerdydd yn parhau i arwain y clwb gyda phwrpas a thryloywder. Mae'n prif swyddogion, ein staff a chynrychiolwyr y chwaraewyr yn cynnig gwir oruchwyliaeth strategol gan sicrhau bod y clwb yn parhau'n un o brif dimau a chlybiau rygbi Cymru.

Mae cynaliadwyedd bellach wedi'i wreiddio ym mhob agwedd o waith y clwb. Mae'n Cydlynydd Cynaliadwyedd yn dod â gweithrediadau'r clwb, ein partneriaethau, materion cyllidol, marchnata, rygbi a lleisiau'r chwaraewyr i gyd at ei gilydd er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd yn greiddiol wrth wneud ein penderfyniadau bob dydd. Mae hyn hefyd yn wir am Sefydliad Cymunedol Rygbi Caerdydd, sydd o dan arweiniad cefnogol y Cyfarwyddwr Cymunedol a'r Rheolwr Cymunedol.

O ran y broses o fesur ein cynnydd, mae ein hôl troed carbon sylfaenol yn darparu man cychwyn amlwg yn y cyd-destun yma.

# 7. Arwain, Llywodraethu a Chadw Cofnod

## Yr Ail Hanner: Ein Blaenoriaethau ar gyfer y Camau Nesaf

**Byddwn yn:**

- Ehangu a grymuso'r gweithgor cynaliadwyedd, gan ddod â mwy o leisiau i mewn i'r gorlan a chryfhau perchnogaeth ar y cyd ar draws y timau rygbi, masnachol a chymunedol.
- Gwella ein dealltwriaeth o risgiau hinsawdd a natur fel y gallwn eu cynnwys yng nghynlluniau'r clwb wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.
- Gwreiddio arweinyddiaeth ym maes cynaliadwyedd ar bob lefel, gan sicrhau bod pob adran yn deall eu rôl er mwyn sicrhau gwelliant.
- Edrych ar bartneriaethau â chlybiau eraill er mwyn cynyddu ein grym prynu, gan hefyd ddylanwadu ar safonau cyflenwyr a sicrhau telerau masnachol mwy ffafriol.

**Er mwyn mesur cynnydd, byddwn yn:**

- Cryfhau ein trefniadau adrodd a'n tryloywder, gan egluro'n glir i'n cefnogwyr, partneriaid a'n rhanddeiliaid o'r cynnydd rydym yn ei wneud, yn union fel rydym yn dadansoddi perfformiad ein tîm ar ôl pob gêm.
- Ehangu ein systemau mesur cynnydd i gynnwys meysydd allweddol megis ynni, teithio, dŵr, gwastraff ac effaith gymunedol.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn cysoni dulliau Rygbi Caerdydd i olrhain cynnydd a nodi cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ymhellach o safbwynt Hinsawdd, Natur a Phobl.

| Maes | Yr Hyn Rydym yn ei Fesur | Diben |
|---|---|---|
| Ynni a Charbon | Allyriadau gweithredol; defnydd o ynni adnewyddadwy; cymariaethau man cychwyn blynyddol ein hôl troed carbon | Cofnodi gostyngiadau a nodi cyfleoedd i wella effeithlonrwydd |
| Teithio Cefnogwyr | Amcangyfrif o allyriadau; ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru a Pledgeball | Deall a lleihau effeithiau sy'n gysylltiedig â theithio |
| Teithio Chwaraewyr a Staff | Allyriadau teithio blynyddol; dulliau teithio; bod yn agored o ran costau | Bod yn agored ac atebol am effaith sylweddol ein trefniadau teithio, a cheisio lliniaru'r effeithiau hynny |
| Dŵr | Litrau fesul gêm; gwelliannau effeithlonrwydd; defnydd o fannau ail-lenwi | Lleihau'r defnydd o ddŵr a dileu gwastraff |
| Gwastraff ac Ailgylchu | Cyfanswm gwastraff o ran tunellau; cyfraddau ailgylchu; gostyngiadau yn y defnydd o blastig untro | Hybu cylchrededd a gwella cynaliadwyedd ar ddiwrnodau gêm |
| Gweithredoedd ar Ddiwrnodau Gêm | Defnydd o docynnau digidol; cyfraddau dychwelyd cwpanau amldro | Lleihau'r defnydd o adnoddau a gwella profiad y cefnogwyr |
| Ymgysylltiad Cymunedol y Sefydliad | Nifer yr ysgolion, cyfranogwyr a grwpiau cymunedol sy'n ymgysylltu; lleoliadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) lle cyflwynir gweithgareddau; oriau a gyflwynir; adborth cyfranogwyr; astudiaethau achos; canlyniadau gwerth cymdeithasol | Disgrifio a mesur nid yn unig allbynnau'r Sefydliad (megis nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu), ond hefyd y canlyniadau cymdeithasol – y gwahaniaeth a wneir o ganlyniad i'r gwaith. Mesur maint gweithgarwch y Sefydliad a'r gwahaniaeth cadarnhaol a wneir yn y gymuned. |



# 8. Cyfathrebu

Mae angen ymdrech gan bawb sy'n ymwneud ag unrhyw fudiad er mwyn tynnu i'r un cyfeiriad. Mae llwyddiant yn magu llwyddiant, ac mae pobl eisiau bod yn rhan o dîm sy'n ennill, gan ddilyn esiampl eu harwyr. Drwy rannu taith gynaliadwyedd Rygbi Caerdydd, gallwn ysbrydoli cefnogwyr, partneriaid a chlybiau rygbi ar lawr gwlad i gamu ymlaen yn hyderus gyda ni. Unwaith i ni ddangos beth sy'n bosibl – y llwyddiannau, yr hyn rydym wedi'i ddysgu a'r gwaith caled sydd wedi ei wneud ar hyd y ffordd – gallwn wedyn helpu eraill i weld bod gweithredu'n gynaliadwy yn rhywbeth arferol ac yn rhywbeth i anelu tuag ato. Dyma sut rydym yn meithrin momentwm ledled y rhanbarth ac yn dod â phawb gyda ni ar ein taith.

## Ein Hymrwymiad

Rydym yn ymrwymo i adrodd yn glir ac yn dryloyw, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn rhannu ein perfformiad a'n cynnydd, ac i sbarduno newid cadarnhaol.

## Dadansoddiad yr Hanner Cyntaf

Mae ein sianeli cyfathrebu presennol yn cynnwys ein gwefan, y cyfryngau cymdeithasol, rhaglenni diwrnod gêm, cylchlythyrau, posteri a negeseuon yn y stadiwm; mae'r rhain i gyd eisoes yn rhoi llwyfannau cryf inni adrodd ein stori. Mae cynnwys am gynaliadwyedd wedi dechrau ymddangos ar draws y sianeli hyn, ond nid yw eto wedi'i blethu'n llawn i naratif rygbi wythnosol y clwb.

Mae ein partneriaid a'n noddwyr hefyd wedi dangos diddordeb cynyddol mewn adrodd straeon am gynaliadwyedd, gyda nifer ohonynt eisoes yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ar y cyd, mentrau cymunedol neu weithgareddau ar ddiwrnodau gêm. Mae hyn yn rhoi sylfaen gref inni adeiladu arni.

Mae gennym Strategaeth Gyfathrebu, sy'n cynnwys mapio ein rhanddeiliaid ac ystyried sut y gallem gyfathrebu'n well â nhw.

## Yr Ail Hanner – ein blaenoriaethau ar gyfer y camau nesaf

Wrth inni symud at gam nesaf y broses, byddwn yn cryfhau'r ffordd rydym yn cyfathrebu am gynaliadwyedd, fel ei fod yn dod yn rhan o rythm arferol y clwb, yn union fel newyddion y tîm, rhagolygon gemau a diweddariadau'r academi.

**Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys:**

- Integreiddio negeseuon cynaliadwyedd yn ein cynllun cyfathrebu presennol.
- Dathlu llwyddiant mewn ffordd sy'n meithrin momentwm, gan rannu cynnydd mewn ffordd glir a hygyrch, ac ysbrydoli cefnogwyr, partneriaid ac eraill i wneud newidiadau cadarnhaol ac ymuno â'r tîm sydd ar flaen y gad.
- Tynnu sylw at gyfraniadau partneriaid, gan amlygu sut mae noddwyr yn helpu i sbarduno newid cadarnhaol a chyflwyno cynaliadwyedd fel ymdrech ar y cyd ar draws ein teulu.
- Defnyddio lleisiau chwaraewyr a hyfforddwyr, gan wneud camau cynaliadwy yn berthnasol ac yn ysbrydoledig drwy ddefnyddio modelau rôl y mae pobl yn ymddiried ynddynt.
- Rhannu'r heriau yn ogystal â'r llwyddiannau, gan atgyfnerthu tryloywder a dangos bod cynnydd yn ymdrech tîm, nid ras frysiog at y llinell gais.


Bydd y dull hwn o weithredu yn helpu Rygbi Caerdydd i feithrin mudiad dros newid sy'n cryfhau gyda phob tymor – ymdrech gan y garfan gyfan ar y cae ac oddi arno.

Mae'r graffeg 'tŷ negeseuon' canlynol yn dangos y fframwaith negeseuon cyffredinol:

Gall pob cefnogwr, chwaraewr a phartner gyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy i rygbi, ein cymuned a'n planed.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Neges Greiddiol** | **Cefnogwyr yn Gyntaf**<br>Gwneud cynaliadwyedd yn bosibl i bawb, yn ddiddorol ac yn fuddiol i gefnogwyr | **Balchder yng Nghaerdydd**<br>Gwreiddio cynaliadwyedd yn niwylliant Rygbi Caerdydd ac yng Nghymru | **Etifeddiaeth a Chyfrifoldeb**<br>Sicrhau amgylchedd llewyrchus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o chwaraewyr a chefnogwyr | **Arwain drwy Esiampl**<br>Gosod y safon ar gyfer arferion cynaliadwy yng ngweddill y byd rygbi |
| **Fframwaith negeseuon cyfathrebu** | • Addysgu cefnogwyr a'u cynnwys mewn cynlluniau cynaliadwyedd, e.e. rhaglenni ailgylchu, opsiynau teithio cynaliadwy a PLEDGEBALL.<br>• Cydweithio ag ysgolion a sefydliadau lleol i ddatblygu mentrau gwyrdd yn y gymuned.<br>• Cynnig cymhellion am ymddygiad cynaliadwy mewn gemau, e.e. gostyngiadau wrth ddefnyddio cwpanau eildro. | • Hyrwyddo cynaliadwyedd o fewn y gamp, rhanbarth Caerdydd a Chymru gyfan.<br>• Dangos sut mae cynaliadwyedd yn mynd law yn llaw â threftadaeth Caerdydd a Chymru, yn ogystal â gwerthoedd ein cymunedau.<br>• Gwreiddio cynaliadwyedd ym mhob agwedd o waith y clwb drwy adrodd straeon a chynnal gweithgareddau ymgysylltu. | • Gweithredu mentrau cynaliadwyedd hirdymor sy'n cael effaith barhaol.<br>• Annog gwahanol genedlaethau i gymryd rhan er mwyn meithrin ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb dros ddyfodol y clwb. | • Mesur yr effaith amgylcheddol er mwyn gosod targedau a gwella cynaliadwyedd (EIA).<br>• Lleihau'r ôl troed carbon drwy effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff a gwelliannau gweithredol.<br>• Gweithio gyda noddwyr a phartneriaid sydd hefyd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd ac arferion busnes cyfrifol. |

# 9. Ein Campwyr Campus




## Llawer mwy na thîm ar gae

Mae llawer o'n partneriaid wedi bod yn cydweithio gyda ni ers blynyddoedd, gan greu diwylliant teuluol lle mae noddwyr hefyd yn gefnogwyr, ac mae partneriaid newydd yn ymuno â ni ar hyd y daith am eu bod yn rhannu ein gweledigaeth a'n gwerthoedd. Mae'r tabl hwn yn amlinellu sut rydym yn gweithio gydag eraill i sicrhau'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol posibl.




| Carfan | Rolau | Ein Hymrwymiadau |
|---|---|---|
| Partneriaid a Noddwyr | Mae ein partneriaid i gyd yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i ailfeddwl sut rydym yn gweithredu ac yn cynnal digwyddiadau â dwysedd carbon is. Rydym yn cydweithio'n agos ag RSK, Amber, MSS a Sinclair ar brosiectau sy'n creu gwerth i ni gyd ar y cyd. Mae prynu'n lleol drwy gwmni Castell Howell a'n partneriaeth fanwerthu â Macron yn cryfhau ein cysylltiadau â'r gymuned wrth i ni barhau i wella ein prosesau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â chyflenwyr. | 1. Integreiddio meini prawf cynaliadwyedd ym mhob perthynas â phartneriaid a chyflenwyr.<br>2. Cyd-ddatblygu mentrau gyda phartneriaid sy'n hyrwyddo nodau cynaliadwyedd ar y cyd.<br>3. Defnyddio partneriaethau fel llwyfannau ar gyfer arloesi. |
| Hwb Byd-eang: Cydweithio Rhyngwladol | Rydym yn elwa wrth gydweithio a chyd-ddysgu ag eraill yn y gymuned rygbi a'r byd chwaraeon yn ehangach. Mae cydweithio â Phrifysgol Caerdydd a thimau rhanbarthol eraill yn ein helpu i rannu gwybodaeth am deithio gan gefnogwyr, newid ymddygiad ac ymgysylltu â'r gymuned leol, tra bod rhwydweithiau ehangach yn ein helpu i gadw mewn cysylltiad ag arferion gorau o safbwynt cynaliadwyedd. | 1. Archwilio cyfleoedd ar gyfer mentrau ar y cyd â chlybiau eraill.<br>2. Cydweithio â chyrff rygbi ym mhedwar ban y byd i gryfhau safonau.<br>3. Rhannu gwybodaeth ar draws y byd chwaraeon. |
| Cysylltu Cenedlaethol a Lleol | Mae ymgysylltu cyson â chynghorau a chyrff cenedlaethol yn hanfodol, yn enwedig yng nghyd-destun seilwaith trafnidiaeth a theithio ar ddiwrnodau gemau. Mae hyn yn ein helpu i greu effeithiau cadarnhaol ehangach i'n cymunedau. | 1. Cysoni rhaglenni cymunedol â blaenoriaethau rhanbarthol.<br>2. Ymgysylltu â chyrff llywodraethol er mwyn ein helpu i sicrhau buddsoddiad.<br>3. Cryfhau partneriaethau â grwpiau cymunedol. |
| Teithio Cyfrifol | Rydym yn cydweithio â Bws Caerdydd, Trafnidiaeth Cymru a chwmnïau teithio preifat wrth i ni archwilio opsiynau teithio mwy cynaliadwy i gefnogwyr, yn enwedig cefnogwyr hŷn sy'n dod i'n gemau gyda'r nos. Er bod teithio rhyngwladol yn parhau i fod yn her o ran lleihau allyriadau, byddwn yn gweithio gyda chlybiau eraill a'r Undeb i reoli'r effaith yma mewn ffordd gyfrifol. | 1. Cydweithio â'r Undeb a chlybiau eraill Cymru ar deithio rhyngwladol.<br>2. Gwella partneriaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd.<br>3. Gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu'r gwahanol opsiynau teithio ar ein cyfryngau cymdeithasol. |
| Y Teulu Rygbi Ehangach | Rydym yn dysgu gan eraill ac yn ceisio osgoi ailddyfeisio'r olwyn. Mae Rygbi Caerdydd eisoes yn cydweithio â chlybiau ledled eraill Cymru a thu hwnt i ffiniau'n gwlad, gan rannu adnoddau a syniadau er mwyn cyflymu'r broses o newid cadarnhaol gyda'n gilydd. | 1. Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ar y cyd sy'n hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol.<br>2. Cyfrannu at ymdrechion cynaliadwyedd ar y cyd ar draws teulu rygbi Cymru a'r gamp yn rhyngwladol.<br>3. Cefnogi datblygiad arweinyddiaeth ym maes cynaliadwyedd drwy lysgenhadon ymhlith ein chwaraewyr a'n staff. |

# Atodiadau

Byd y Bêl: Sut mae ein Strategaeth yn Cyd-fynd ag eraill

| Maes Ffocws Rygbi Caerdydd | Caerdydd Un Blaned | I Gaerdydd | Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig |
|---|---|---|---|---|
| Ynni | Ynni Un Blaned | Cymru Lewyrchus a Chydnerth | Pontio i Sero Net | 7, 13 |
| Gwydnwch Hinsawdd | Ynni Un Blaned | Cymru Lewyrchus a Chydnerth | Pontio i Sero Net | 7, 11, 13 |
| Teithio | Trafnidiaeth Un Blaned | Cymru Iachach | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol | 11, 13 |
| Bioamrywiaeth | Seilwaith Gwyrdd Un Blaned | Cymru Gydnerth | Technolegau Gwyrdd | 14, 15 |
| Dŵr | Dŵr Un Blaned | Cymru Gydnerth | Technolegau Gwyrdd | 6, 14 |
| Gwastraff a'r Economi Gylchol | Gwastraff Un Blaned | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang | Blaenoriaethau'r Economi Gylchol | 12 |
| Ymgysylltu â'r Gymuned | Strategaeth Newid Ymddygiad | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Rhanbarth Cydnerth | 4, 10, 11 |
| Amrywiaeth a Chynhwysiant | Strategaeth Newid Ymddygiad | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Rhanbarth Cydnerth | 5, 10 |
| Iechyd a Llesiant | Strategaeth Newid Ymddygiad | Cymru Iachach | Rhanbarth Cydnerth | 3 |

Rhai meysydd gweithredu a chynlluniau cyfalaf sy'n gorgyffwrdd gyda nifer o themâu

| | Hinsawdd | | | Natur | | | Pobl | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect / Gweithrediad | Ynni | Gwastraff | Teithio / Trafnidiaeth | Bioamrywiaeth | Dŵr | Llygredd | Ymgysylltu â'r Gymuned | Amrywiaeth a Chynhwysiant | Iechyd a Llesiant |
| Arlwyo a Lletygarwch | x | x | x | x | x | x | | | x |
| Adnewyddu a Chynnal a Chadw'r Cae | x | x | | x | x | x | | | |
| Caffael Cit a Nwyddau | x | x | x | x | x | x | x | x | |
| Datblygu Cyfleuster Ymarfer | x | x | x | x | x | x | x | | x |
| Gweithrediadau Diwrnod Gêm | x | x | x | | x | x | x | x | x |
| Cytundebau Cyflenwyr a Phartneriaid | x | x | x | x | x | x | x | x | |
| Teithio a Logisteg y Timau | x | | x | | | | | | x |
| Seilwaith Digidol a Thocynnau | | | x | | | | x | x | |

cardiffrugby.wales